Mawrth 2024

# Perthnasedd Gwledig

## Sut i adnabod casgliadau gwledig, gofalu amdanynt a'u rhannu

*Pecyn Cymorth*



Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government
museum development united kingdom
Art Fund_
RURAL museums network

● **LLUN Y CLAWR:** Beirniadu ieir, rali Ffermwyr Ifanc, Ynys Môn c.1955. Archifau Ynys Môn, Trwydded Archifau Creadigol.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** | 3

**Defnyddio Casgliadau Gwledig** | 4

- **Themâu Dehongli ac Arddangos** | 4
  - Blas y Tir | 5
  - Llun y Tir | 6
  - Lleisiau'r Tir | 7
- **Cefnogi Crefftau Gwledig** | 8
  - Plygu Gwrychoedd | 9
  - Basgedwaith | 10
  - Coedwriaeth | 11

**Rheoli Casgliadau** | 12

- **Adnabod Casgliadau** | 13
  - Mathau o Gasgliadau Gwledig | 13
- **Gofal a Chadwraeth** | 15
  - Defnyddiau | 15
  - Amgylchedd | 15
  - Triniaeth | 16
  - Offer Gweithiol | 16
- **Caffael a Gwaredu** | 17

**Camau pellach** | 18

- **Rhwydweithiau a Chyngor** | 18
- **Adnoddau Pellach** | 18


**Cydnabyddiaethau** | 20

# Cyflwyniad

Mae'r Rhwydwaith Amgueddfeydd Gwledig (Rural Museums Network - RMN), sef rhwydwaith pwnc arbenigol ar gyfer casgliadau gwledig, wedi creu'r pecyn cymorth hwn i amgueddfeydd yng Nghymru oherwydd bwlch sgiliau a gwybodaeth a nodwyd gan Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru.

Mae casgliadau gwledig ac amaethyddol i'w cael mewn lleoliadau gwledig gan amlaf, ond nid bob amser. Ac yn rhai amgueddfeydd gwledig efallai nad oes eitemau amaethyddol ond mae yno eitemau wedi'u casglu o gymunedau sy'n amlwg yn wledig. Rhwydwaith ar gyfer yr holl amgueddfeydd hyn yw RMN.

Pecyn cymorth yw hwn i bobl sydd ddim yn arbenigwyr ac mae wedi'i gynllunio i fagu hyder wrth reoli, a brwdfrydedd dros ddefnyddio, casgliadau gwledig mewn amgueddfeydd. Mae'n cynnwys ysbrydoliaeth a chyngor ac mae'n fan cychwyn ar gyfer archwilio a gweithgarwch pellach ar sail y casgliadau sydd gennych.



● **LLUN:** Gof, Marian-glas, Ynys Môn, 1967.
Archifau Ynys Môn, Trwydded Archifau Creadigol.

# Defnyddio Casgliadau Gwledig

Mae sawl ffordd o ddefnyddio casgliadau gwledig a'u hanesion i ddenu ymwelwyr i amgueddfeydd, gan gynnwys themâu a gweithgareddau dehongli. Y ffactor hanfodol yw perthnasedd; sicrhau bod casgliadau a gweithgareddau sy'n perthyn efallai i ffordd o fyw nad yw ymwelwyr yn ei gofio mwyach, yn berthnasol mewn cymdeithas gynyddol drefol.

All amgueddfeydd gwledig ddim dehongli cefn gwlad yn nhermau ffermio yn unig, achos i'r rhan fwyaf o bobl, mae cefn gwlad yn ymwneud â natur, tirwedd, treftadaeth leol yn ogystal â ffermio. Er enghraifft, gall fod cysylltiad agos rhwng amaethyddiaeth a bwyd, pwnc sy'n berthnasol i bawb.

Mae angen i amgueddfeydd gwledig fod yn berthnasol wrth ddehongli materion cenedlaethol a byd-eang, gan greu cysylltiadau â'u casgliadau. Mae tirweddau a'r amgylchedd yn newid, ac mae amaethyddiaeth yn addasu.

Perthnasedd yw defnyddio casgliadau i adrodd hanes y bobl oedd yn gyfrifol am eu cynllunio a'u defnyddio, gan esbonio sut roedd pobl yn byw ac yn ennill bywoliaeth, a chanfod cysylltiadau i ymwelwyr. Mae hefyd yn ymwneud â chynnwys straeon sydd efallai heb gael eu dweud o'r blaen, gan weithio gyda chymunedau i wneud hynny.

Mae cysylltu eitemau difywyd mewn amgueddfa gyda phobl go iawn a sgiliau go iawn yn ffordd arall o adeiladu perthnasedd. Mae cefnogi crefftau gwledig sy'n gyfrifol am greu a defnyddio casgliadau gwledig a bywyd yng nghefn gwlad yn cadw'r cysylltiad rhwng y ffordd honno o fyw a heddiw i ymwelwyr.

## Themâu Dehongli ac Arddangos

Caiff astudiaethau achos eu paru yma gydag adnoddau o archifau'r RMN ac amgueddfeydd eraill i oleuo rhai themâu dehongli ac arddangos sy'n dangos perthnasedd. Nid yw'r themâu o reidrwydd ar wahân i'w gilydd, er enghraifft, mae yna gysylltiad rhwng cynhyrchu bwyd a'r amgylchedd.




## Blas y Tir

**Astudiaeth achos:** *Ailfrandio fel Amgueddfa Fwyd*

Lisa Harris, Rheolwr Casglu a Dehongli, Amgueddfa Fwyd (Stowmarket, Suffolk)

Agorodd y Museum of East Anglian Life ym 1967, gan dyfu i 84 erw o gefn gwlad, 17 adeilad hanesyddol, 40,000 o wrthrychau ac anifeiliaid bridiau prin lleol. Erbyn 2016 roedd niferoedd llai a llai yn ymweld â'r amgueddfa, roedd angen gwaith cynnal a chadw mawr ar yr adeiladau hanesyddol, ac roedd pobl yn dweud wrthym nad oeddent yn ymweld am nad oeddem yn berthnasol iddyn nhw.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i ddatblygu'r amgueddfa a'r casgliad, gan siarad â grwpiau amgylcheddol, cymunedol a chrefyddol, awduron bwyd, cogyddion, ffermwyr, ysgolion a phobl o wahanol oedrannau, diddordebau a chefndiroedd. Bwyd oedd yr edefyn cyffredin oedd yn rhedeg drwy ein casgliad, o'r ysgubor ganoloesol, y felin ddŵr a'r ardd i'n certiau, ein faniau llaeth a'n peiriannau, ein hanifeiliaid, a'n tai a'u ceginau.

Yn 2022 daethom yn Amgueddfa Fwyd. Rydym yn ail-ffocysu'r safle a'r arddangosfeydd o gwmpas tair thema allweddol: Tyfu (defnyddio ein tir, Gweithgareddau Rhoi Cynnig ar Ffermio), Gwneud (arddangosfeydd a gweithgareddau yn cynnwys malu blawd yn ein melin ddŵr, gwasgu sudd afal) a Bwyta (blasu yn ein cegin arddangos, caffi, siop).

Yn ein harddangosfa am 2023/24 *Meat the Future* (gydag Amgueddfa Hanes Naturiol Prifysgol Rhydychen a rhaglen ymchwil Amgylchedd Da Byw a Phobl Prifysgol Rhydychen) cyflwynwyd ymchwil ar effeithiau amgylcheddol amaethyddiaeth anifeiliaid, a chodwyd y cwestiwn hefyd: ai anghenraid yw ein chwant am gig, neu ai mater o flas? Os bwytawn ni lai o gig, beth fydd yn digwydd i bobl sy'n cael eu cyflogi yn y diwydiant? A'n tirwedd ni, sydd wedi ei siapio gan ffermio? Cynrychiolwyd ymgyrchwyr, gwyddonwyr, ffermwyr a chigyddion trwy sain a gwrthrychau.

Nid mater bach oedd newid i fod yn Amgueddfa Fwyd ond cawsom ein hysgogi gan ymrwymiad i ddehongli ein casgliad mewn ffordd sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd modern. Dylai amgueddfeydd fod yn adnodd byw sy'n anadlu ac yn tyfu er mwyn i bobl allu cysylltu â'r gorffennol mewn ffordd sy'n berthnasol ac yn ddeniadol, felly dylai adborth a gwerthuso fod yn rhan o'r peth o'r dechrau.

### I ddarganfod mwy:

Mae *Milk and Honey: Interpreting dairying and bee keeping collections in rural life museums* (RMN, 2014) yn canolbwyntio ar fwyd lleol, treftadaeth bwyd a materion amgylcheddol, gan gynnwys hanesion i'w hadrodd, syniadau am arddangosfeydd a gweithgareddau

Cynllun 1 (ruralmuseums.org.uk)



## Llun y Tir

**Astudiaeth achos:** *Prosiect Defaid*

Carrie Canham, Curadur, Amgueddfa Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion)

Datblygwyd y prosiect *Defaid* (2019) gan Amgueddfa Ceredigion gydag arddangosfa gelf a symposiwm Tirweddau'r Dyfodol yn gysylltiedig â hi.

Testun yr arddangosfa oedd y dadleuon ynghylch canfyddiadau newidiol o dirwedd yr ucheldir, gan archwilio hanes, treftadaeth a diwylliant Ceredigion fel cymuned ffermio defaid. Archwiliodd yr amgueddfa'r syniadau hyn gan ddefnyddio arteffactau o'i chasgliad ei hun, gweithiau celf a fenthycwyd o gasgliad y Tate, a gweithiau gan artistiaid sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru heddiw.

Fel amgueddfa sirol gyda chasgliad sylweddol sy'n cynrychioli treftadaeth amaethyddol draddodiadol Ceredigion, roeddem yn teimlo cyfrifoldeb i ymuno yn y ddeialog gyda'n cymunedau am ddefnydd tir a dyfodol yr ucheldir.

Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith yn yr arddangosfa yn dangos defaid mewn rhyw ffordd, neu'r tir a phobl sy'n cynnal ffermio defaid. Dewisodd yr amgueddfa arddangos artistiaid sy'n archwilio gwahanol themâu'r bywyd gwledig a ffermio, gan gynnwys pobl, lle, gwleidyddiaeth, hanes, daearyddiaeth, bioleg a thirwedd. Derbyniwyd gweithiau eraill o'r oriel i arddangosfeydd parhaol yr amgueddfa: cerfluniau defaid o fewn yr adran cerameg a ffilmiau defaid yn yr arddangosfeydd sinema a thecstilau.

Cynhaliwyd y symposiwm yng nghyd-destun pryder yn y gymuned ffermio am effeithiau Brexit ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru a'r drafodaeth gynyddol gynhennus am y cysyniad o ailwylltio. Cafwyd safbwyntiau trawsddisgyblaethol ffermwyr, archeolegwyr, artistiaid, daearyddwyr, protestwyr, ecolegwyr a llunwyr polisi. Hwyluswyd y ddadl gyda sensitifrwydd mawr mewn arddull 'Caffi Byd' i sicrhau bod pob llais yn cael gwrandawiad a pharch. Bu'r amgueddfa'n gatalydd da ar gyfer y ddeialog hon gan mai ei hagenda oedd hwyluso, a pheidio hyrwyddo un safbwynt dros un arall. Arweiniodd y symposiwm at greu cyfarfod misol 'Practis y Bobl' yn yr amgueddfa lle gallai'r sgyrsiau barhau mewn awyrgylch gefnogol.

### I ddarganfod mwy:

Mae *Turning Green Collections Toolkit* (RMN, 2008) yn edrych ar ffyrdd o ddehongli pryderon heddiw am newid yn yr hinsawdd gan ddefnyddio gwrthrychau o'r gorffennol. Mae'n cynnwys matrics ar gyfer themâu dehongli a gwrthrychau cysylltiedig **toolkit (ruralmuseums.org.uk)**

Mae *The Power of the Plough* (RMN, 2012) yn disgrifio aradr a sut mae'n gweithio, sut i'w arddangos, straeon y gall eu hadrodd, a sut mae aredig wedi newid tirweddau **Cynllun 1 (ruralmuseums.org.uk)**



## Lleisiau'r Tir

**Astudiaeth achos:** *Prosiect VARDA*

Cait Hilditch, Swyddog Casgliadau, Parc Maenor Scolton (Gwasanaeth Amgueddfa Sir Benfro)

Menter cynhwysiant cymdeithasol oedd prosiect *VARDA* (2002-2016) i ddarparu gwasanaethau diwylliannol i'r lleiafrif ethnig hynaf a mwyaf yn Sir Benfro, sef y gymuned Sipsiwn Romani, mewn partneriaeth â'r Adran Addysg ac mewn ymgynghoriad â chymunedau. Hanes cudd oedd eu stori nhw, er gwaethaf yr effaith enfawr a gafodd eu presenoldeb a'u llafur yng ngorffennol gwledig Sir Benfro.

Roedd *VARDA* yn amgueddfa symudol o hanes a diwylliant y Romani, yn cynrychioli bywyd y teithwyr yn y 19eg ganrif, ac yn cynnwys casgliadau hanes cymdeithasol a chrefftau'r Sipsi. Y nod oedd archwilio a chadw traddodiadau, hanes a diwylliant mewn ffordd hygyrch.

Ar ôl ymgynghori penderfynwyd mai'r ffordd orau i ddarparu'r gwasanaeth oedd mynd â'r amgueddfa i'r gymuned. Y 'varda' oedd canolbwynt bywyd teuluol y Romani ac mae'n dal i fod yn symbol diwylliannol cryf. Mae'n hanfodol creu partneriaethau gyda rhanddeiliaid ac ymgynghori wrth weithio gyda grwpiau lleiafrifol neu ddifreiniedig (e.e. dewis y grŵp cymunedol oedd gwedd "ramantus" *VARDA*).

Aeth *VARDA* ar daith o amgylch Sir Benfro gan ymweld â digwyddiadau, safleoedd Sipsiwn ac ysgolion, ac fe'i defnyddiwyd yn rheolaidd fel ystafell ddosbarth gan un ysgol, er bod llai o ddefnydd ohono erbyn 2004 pan adawodd arweinwyr y prosiect, a gwelwyd bod angen ei ddiogelu i'r dyfodol. Erbyn 2016 roedd yn rhy fregus i deithio ac fe gafodd ei storio. Yn 2020 cafodd *VARDA* ei hadfer a'i defnyddio eto fel ystafell ddosbarth mewn ysgol ond daeth yn darged i fandaliaid felly dychwelodd i Scolton.

Wedi cael ei hadfer gan wirfoddolwyr, bydd *VARDA* nawr yn cael ei harddangos ym mharc Scolton i gynulleidfa newydd ei mwynhau yn 2024/25. Bydd wedi'i hailwampio ar gyfer y 2020au – ei haddurno o'r newydd a chyda chymysgedd o gyfryngau traddodiadol a digidol i roi dehongliad newydd. Fydd yr arddangosfa ddim yn teithio bellach gan fod cost cludo ac yswirio *VARDA* yn ddrud iawn. Ond bydd ar gael ar gyfer sesiynau addysg, a bydd yn creu adnoddau i'w defnyddio mewn ysgolion.

### I ddarganfod mwy:

*Representing Gypsy, Roma and Travelling Communities in Rural Museums* (RMN, 2022): seminar gan guradur Amgueddfa Bourne Hall yn Epsom and Ewell; **Jeremy Harte - Representing GRT Communities in Rural Museums - YouTube**

*An Unfinished Painting* (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr, 2021) adnodd ar gyfer adnabod gwrthrychau **GRT History Month 2021: An Unfinished Painting (reading.ac.uk)**



● **LLUN:** Cneifio yn Pantyrhuad Sanclêr,
Trwydded Archifau Creadigol

## Cefnogi Crefftau Gwledig

Mae cynnal cysylltiadau â chrefftau gwledig fel gwaith coed, gwaith gof, gwehyddu, basgedwaith a chrochenwaith yn cadw casgliadau'n fyw ac yn berthnasol i ymwelwyr, ac i fywyd cyfoes. Mae astudiaethau achos yma'n dangos hyn ac mae adnoddau o archifau'r RMN ac amgueddfeydd eraill yn cefnogi ymchwiliad pellach.



## Plygu Gwrychoedd

**Astudiaeth Achos:** *Arddangosfa a Rhaglen Hedgerow*

Lisa Harris – Rheolwr Casglu a Dehongli, yr Amgueddfa Fwyd (Stowmarket, Suffolk)

Canolbwyntiodd ein harddangosfa *Hedgerow* (2022) ar y rôl bwysig y mae gwrychoedd yn ei chwarae fel cynefin lled-naturiol yn yr amgylchedd, gan adrodd stori gwrychoedd drwy'r oesoedd. Canolbwyntiwyd ar ein casgliad (offer plygu gwrych, menig, llif gadwyn) ynghyd â ffotograffau o arddulliau a thechnegau plygu, paentiadau, printiau, cerfluniau, tecstilau, a graffiti. Buom yn gweithio gyda'r gydweithfa artistiaid Our Isles, cyrff eiriolaeth, academyddion, grwpiau cymunedol ac unigolion i greu dathliad a barodd am flwyddyn, a galwad am weithredu dros un o'n cynefinoedd mwyaf cyfarwydd.

Datblygwyd gweithgareddau i ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd trwy gyfranogiad a chydweithio, gan gynnwys arddangosiadau a sesiynau blasu bwyd gan ddefnyddio cynhwysion wedi'u casglu o dir yr amgueddfa (garlleg gwyllt, aeron, egroes), 'Llwybr Gwrychoedd' yn annog ymwelwyr i archwilio gwrychoedd o amgylch tir yr amgueddfa, helfa lysiau, a sgwrs banel gyda'r darlledwr natur enwog Richard Mabey.

Cefnogodd yr amgueddfa gynaliadwyedd crefftau hanesyddol trwy ddarparu arbenigwyr i hyfforddi pobl i blygu gwrych. Arweiniodd hyn at blannu dros filltir o wrychoedd ar dir yr amgueddfa a chynlluniau parhaus i wneud hyn yn flynyddol er mwyn gofalu am ein tirwedd a rhannu sgiliau traddodiadol. Crëwyd arddangosfa gymunedol hefyd (planhigion, anifeiliaid a phryfed wedi'u gwau a'u crosio gan y gymuned leol) gan Grŵp Ecoddyfodol Stowmarket i gyflwyno nifer o bethau y gallai ymwelwyr eu gwneud yn eu gerddi eu hunain i hyrwyddo natur.

Aethom â fersiwn fach o'r arddangosfa i Senedd San Steffan i annog ASau i gofrestru fel 'Hedgerow Heroes' i gefnogi CPRE yr Elusen Cefn Gwlad yn ei hymgyrch, '40 by 50', sef galwad ar y llywodraeth i godi ei tharged i gynyddu rhwydweithiau gwrychoedd 40% erbyn 2050 – a llwyddwyd i gael yr addewid hwn.



## Basgedwaith

**Astudiaeth Achos:** *Stakeholders*

Ollie Douglas, Curadur, Museum of English Rural Life (Reading)

Dyfeisiwyd *Stakeholders* (2014) i ddod â basgedwyr cyfoes a churaduron at ei gilydd i wella dogfennaeth yn y MERL ar sail gwaith blaenorol gan Dorothy Wright, arbenigwraig basgedwaith. Cofnodwyd gwybodaeth â llaw ar ffurflenni mewn gweithdai ymarferol a defnyddiwyd hynny wedyn i wella cronfeydd data a dogfennaeth a wnaed gan Wright yn y 1960au.

Bwriad arall i'r prosiect oedd hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhwng cenedlaethau. Gweithiodd basgedwyr sefydledig gyda'r to nesaf o fasgedwyr i gatalogio'r basgedi. Roedd hyn yn fodd i fasgedwyr medrus iawn rannu eu harbenigedd gydag aelodau eraill o'r gymuned fasgedwyr.

Y cynllun gwreiddiol oedd y byddai basgedwyr newydd yn creu darnau newydd dan arweiniad basgedwyr sefydledig, ond cytunodd y cyfranogwyr y byddent i gyd yn hoffi'r cyfle i gyfrannu gwaith. Er nad oedd pob un o'r cyfranogwyr eisiau gwerthu eu gwaith, roedd hyn yn dal i olygu bod arian cyfyngedig yn cael ei rannau ar draws bron ddwywaith cymaint o fasgedwyr.

Wrth astudio basgedi bydd basgedwyr yn aml yn gwneud nodiadau, ffotograffau a brasluniau. 'Ryseitiau basgedi' yw'r rhain i bob pwrpas, sy'n eu galluogi i gynhyrchu copïau. Roedd y ffurflenni catalogio wedi'u llunio i adleisio dull Wright ond hwyrach y buasai dull 'rysáit basged' wedi bod yn fwy cydnaws ag anghenion basgedwyr cyfoes.

Bu'n brosiect positif iawn a fwynhawyd gan y basgedwyr a churaduron. Galluogodd yr amgueddfa i estyn allan at arbenigwyr a gweithredodd fel hysbyseb i'r gymuned fasgedwyr ehangach, gan gynyddu diddordeb ymchwilwyr ac ymwelwyr. Peth pwerus ydi 'si ar y stryd'! Wrth i bobl ddod i adnabod y casgliad yn well mae canlyniadau annisgwyl yn gallu digwydd hefyd. Er enghraifft, mae rhai cyfranogwyr erbyn hyn wedi rhoi eitemau i'r amgueddfa i lenwi bylchau yn ein casgliadau. Mae cynyddu'r wybodaeth yn sylweddol yn ein cronfa ddata ar-lein yn y maes hwn wedi codi disgwyliadau defnyddwyr ac wedi annog yr amgueddfa i geisio safonau uwch ar gyfer daliadau eraill.



## Coedwriaeth

**Astudiaeth Achos:** *Medi'r Ddawn*

Carrie Canham, Curadur, Amgueddfa Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion)

Mae gan Amgueddfa Ceredigion yn Aberystwyth gasgliad o ryw 60,000 o eitemau sy'n ymwneud â chrefft a diwydiant lleol, y rhan fwyaf wedi'u gwneud neu eu defnyddio yn y sir rhwng tua 1850 a 1950.

Prosiect oedd *Medi'r Ddawn* (2014) a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Tir Coed, elusen coetir a chymunedau gwledig. Gweithiodd yr amgueddfa gyda'r gymuned ffermio leol i gasglu gwybodaeth am offer a dulliau amaethyddol a fyddai wedi cael eu defnyddio i wneud eitemau yn y casgliad, a threfnwyd cyfres o weithdai yn yr amgueddfa ac yn y coetiroedd ar sail ymgynghoriad â'r gymuned.

Hyfforddodd Tir Coed a'r amgueddfa bum person ifanc â sgiliau crefft a menter i wneud amrywiaeth o eitemau crefft i'r gegin i'w gwerthu yn siop yr amgueddfa, wedi'u hysbrydoli gan eitemau yng nghasgliad yr amgueddfa. Defnyddiodd y cyfranogwyr sgiliau crefft hefyd i drwsio offer o'r casgliad cyffwrdd.

I Stuart Evans, dylunydd a thechnegydd yn yr amgueddfa, bu gweithio gyda'r bobl ifanc i archwilio eitemau'r amgueddfa "yn fodd inni edrych ar y casgliad o'r newydd". Digwyddodd hyn mewn sawl ffordd, yn ôl Stuart: "Roedd cael pobl â gwybodaeth arbenigol am hen offer yn ein galluogi i enwi a chategoreiddio ein casgliad mewnol – a gwahaniaethu rhwng eitemau'r casgliad. Trwy ganolbwyntio ar eitemau penodol, roedden ni'n gallu cysylltu'r offer â gwrthrychau gorffenedig yn yr arddangosfa". Trwy'r broses hon, labelwyd rhai o'r arfau yn 'A - i'w harddangos yn unig', 'B – yn ddigon da i'w trafod', 'C - i'w hadfer a'u defnyddio eto gan grefftwyr', a 'D – i'w tynnu o'r casgliad'.

Creodd y prosiect bartneriaeth barhaus gyda Tir Coed a thrwy weithio allan yn y coetir gyda'r elusen dangoswyd yr amgueddfa mewn golau newydd. Roedd effaith gymdeithasol y gwaith yn help i'r amgueddfa sicrhau Cyllid Treftadaeth y Loteri ar gyfer gweithgareddau eraill.

### I ddarganfod mwy:

*Rural Crafts and Trades Collections Today* (RMN, 2007): Cynhaliodd David Viner arolwg a chreu cronfa ddata o wybodaeth am grefftau a swyddi gwledig a ffynonellau cysylltiedig sydd mewn amgueddfeydd ledled y wlad **https://www.ruralmuseums.org.uk/?page_id=1036**

Ar gyfer *Rural Crafts Today* (Museum of English Rural Life, 2007) cysylltodd yr amgueddfa ei chasgliadau crefft â'r bobl, y sgiliau a'r lleoedd cysylltiedig â chrefftau gwledig yng nghefn gwlad, gan greu arddangosfa oedd yn cynnwys ffilmiau o 10 crefftwr unigol **https://www.reading.ac.uk/merl/online_exhibitions/ruralcrafts/index.html**

*Utilising Intangible Cultural Heritage to Actively Support Rural Crafts* (RMN, 2023): seminar gyda Heritage Crafts a'r Ganolfan Astudio Crefftau **Utilising Intangible Cultural Heritage to actively support rural crafts - YouTube**

# Rheoli Casgliadau

Ar ôl edrych ar rai o'r gwahanol ffyrdd y gellir defnyddio casgliadau gwledig, ac wedi cael dipyn o ysbrydoliaeth, gobeithio, awn ymlaen i drafod hanfodion ymchwilio a gofalu am eich casgliadau.

Mae'r gwaith hwn yn agor ffyrdd newydd i ddefnyddio a rhannu eich casgliadau gwledig, a gweld cyfleon newydd i'w gwaredu, o bosib, neu i ddeall arwyddocâd ehangach yr hyn sydd gennych.

Mae'n cynnig canllawiau bras ar gyfer archwilio a gweithgarwch pellach ar sail eich casgliadau eich hun.



● **LLUN:** Gyrrwr gwedd, 1885. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cedwir Pob Hawl

# Adnabod Casgliadau

Gall casgliadau gwledig fod yn eang iawn. Mewn mannau gallant orgyffwrdd â chasgliadau hanes cymdeithasol a rhai eraill hefyd. I helpu i ddeall beth allai casgliad gwledig ei gynnwys, dyma grynodeb.



## Mathau o Gasgliadau Gwledig

### *Offer fferm, arfau llaw ac eitemau cysylltiedig*

Offer a pheiriannau fferm fel erydr, tractorau, peiriannau dyrnu, peiriannau palu, ogau, tryciau llaw, wagenni, gweisg seidr, peiriannau nithio, driliau, peiriannau medi, peiriannau rhwymo, peiriannau codi gwreiddiau a mathru, chwalwyr tail. Peiriannau pŵer neu i'w tynnu gan geffylau fydd rhai; eraill ddim.

Mae arfau llaw ac eitemau cysylltiedig yn cynnwys ffyrch, heyrn torri mawn, rhacanau, cribiniau, gograu, rhawiau, palau, crymanau, pladuriau, tryweli a chafnau, cyllyll, ysgubau a sgubelli, offer ceffylau fel harneisiau, heyrn ffrwyn, cribau, bagiau ceirch, cyfrwyau a gwartholion.

### *Offer cysylltiedig â bwyd, amaethyddol a domestig*

Offer a ddefnyddir wrth gynhyrchu llaeth, menyn a chaws i'w bwyta yn y cartref ac i'w gwerthu: stolion a styciau godro, buddeiau, curwyr menyn, cawslestri a gweisg caws, cyllyll ceuled, rhidyllau a llieiniau hidlo llaeth. Hefyd, ar gyfer magu anifeiliaid, eu lladd, a'u paratoi ar gyfer eu gwerthu a'u bwyta yn y cartref: ystenau, basgedi, cyllyll, offer brandio, bachau crogi cig; cychod gwenyn ac offer cysylltiedig.

### *Dillad, gan gynnwys dillad gwaith, a dodrefn meddal*

Dillad menywod, dynion a phlant o bob math, nid yn unig dillad bob dydd a dillad gwaith ond hefyd dillad "gorau", gan y bydd y rhain yn aml wedi'u haltro i'w gwisgo gan wahanol bobl dros amser. Mae dillad gwaith yn cynnwys dillad fydd yn amrywio o ranbarth i ranbarth o ran smocwaith a brodwaith, hefyd dillad gwarchod fel legins, a hetiau gwenynwyr. Pob math o orchudd llawr gan gynnwys matiau racs, dillad gwely, cwiltiau, blancedi, clustogau, llenni, bleinds, llieiniau personol fel tywelion a chadachau.

### *Offer a chyfarpar domestig*

Offer domestig ar gyfer paratoi a bwyta bwyd, hylendid personol, a bywyd bob dydd. Er enghraifft, potiau coginio a sosbenni, tegellau, llestri menyn, jariau, jygiau, bowlenni a chynwysyddion eraill, tuniau te, decanteri, llestri bwyta, cyllyll a ffyrc, a gwydrau; powlenni ceramig a phiseri, estyll golchi, tybiau golchi a ffyn doli; goleuadau fel canhwyllau, canwyllbrennau a diffoddyron, lampau olew, canhwyllau brwyn, ffitiadau a gorchuddion lampau nwy a thrydan, mentyll nwy a bylbiau golau.

*Adeiladau domestig ac amaethyddol, offer a chynnwys cysylltiedig*

Ysguboriau, beudai, cutiau moch, stablau, bugeildai neu luestai, tasau gwair, cytiau ieir, colomendai; tai, bythynnod; melinau gwynt a dŵr at wahanol ddefnyddiau, eu gosodiadau, ffitiadau a chynnwys. Dodrefn tŷ, addurniadau, ac eiddo personol.

*Peiriannau ac offer crefft*

Offer crefft, peiriannau a nwyddau wedi'u gwneud gan ofaint, seiri, certwyr, cowperiaid, mwynwyr, towyr, seiri olwynion.

*Delweddu'r bywyd gwledig*

Paentiadau a gweithiau celf sy'n darlunio ac yn ymateb i themâu a golygfeydd cefn gwlad, teganau a gemau'n cynrychioli agweddau ar fwyd, ffermio a bywyd gwledig, eitemau sy'n adleisio ac yn dathlu crefftau, swyddi ac arferion gwledig, llyfrau a deunydd diwylliant poblogaidd sy'n cysylltu ag agweddau ar fywyd gwledig.

## Awgrymiadau Adnabod

Os oes gennych eitem sy'n dipyn o ddirgelwch i chi a'ch bod eisiau gwybod mwy, dyma ambell gam y gallech roi cynnig arno:

- Edrych yn eich cronfa ddata/cofrestr dderbyniadau i weld a yw'r cofnod yn cynnig cliw, neu a oes eitemau eraill wedi dod o'r un ffynhonnell, gan wylio am amrywiadau rhanbarthol o ran enwau
- Gofyn i gyn-staff neu wirfoddolwyr a ydyn nhw'n cofio'r rhodd
- Chwilio am farc neu rif dylunio gwneuthurwr. Chwilio ar-lein i gael gwybod mwy am y cwmni a'i gwnaeth – beth arall roedden nhw'n ei wneud. Gallai hynny roi mwy o gliwiau i chi am ei ddefnydd
- Edrych ar y defnydd y mae wedi'i wneud ohono a'r ffurf sydd arno – oes yna gliwiau am ei ddefnydd
- Archwilio catalogau, llyfrau ac adnoddau ar-lein perthnasol i weld a fedrwch chi ddod o hyd i unrhyw beth tebyg
- Cofiwch, gall casgliadau eraill fod wedi'u henwi'n anghywir hefyd, felly chwiliwch am enghreifftiau lluosog er mwyn cael sicrwydd

Os yw'n dal i fod yn ddirgelwch:

- Postiwch lun a disgrifiad i restr bostio ar-lein yr RMN (agored i aelodau). Mae peth wmbredd o wybodaeth arbenigol i'w gael yno ac anaml y bydd dirgelion yn mynd heb eu datrys!
- Ewch i rwydweithiau arbenigol eraill (gweler isod am awgrymiadau) neu gymunedau diddordeb lleol fel gwenynwyr a allai helpu

## Gofal a Chadwraeth

O ran gofalu am gasgliadau gwledig a'u diogelu, does fawr o wahaniaeth rhyngddynt a chasgliadau hanes cymdeithasol ac eraill. Serch hynny, dyma rai themâu cyffredin sy'n ymwneud ag eitemau gwledig yn arbennig.



### Defnyddiau

Y defnyddiau mwyaf cyffredin a geir mewn casgliadau gwledig ac amaethyddol yw pren, lledr, haearn, dur a gwellt (ond hefyd metelau fel copr, efydd, a phres). Fe all fod rhai tecstilau (efallai fel rhan o wrthrych arall e.e. cafn cynfas) a darnau papur (e.e. cyfarwyddiadau defnyddio) hefyd.

Edrychwch ar bob defnydd sydd mewn eitem gan fod cymysgedd yn aml e.e. pren mesur bwsiel wedi'i ddal at ei gilydd â hoelion haearn. Os oes cymysgedd o ddefnyddiau yna bydd raid cyfaddawdu, felly os oes gennych chi bren a haearn, gallwch lanhau'r haearn, rhoi haen amddiffynnol arno (e.e. cwyr *Renaissance*) ac wedyn ystyried sut mae angen trin y pren.

### Amgylchedd

Mae angen bod yn bragmataidd ynglŷn â rheoli amgylchedd yn enwedig mewn amgueddfeydd gwledig lle mae gwrthrychau wedi dod o sied neu fuarth fferm. Yn yr achos hwn rydych chi'n anelu at amgylchedd sefydlog (heb ormod o amrywiad tymheredd a lleithder cymharol) yn hytrach na gwerth penodol sy'n anodd i lawer o amgueddfeydd ei sicrhau.

## Triniaeth

Ystyriwch beth sy'n mynd i achosi diraddio a gwnewch beth allwch chi i'w liniaru. Hyd yn oed yn yr amodau gorau mae haearn yn mynd i gyrydu'n araf, ond gallwch arafu hynny gyda chot o driniaeth sy'n hawdd ei thynnu. Hyd yn oed ar ôl ei drin gall haearn ddal i gyrydu o dan y got, felly cadwch lygad arno a deliwch ag unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl. Os oes unrhyw amheuaeth, mynnwch gyngor!

Mae cotiau o baent, e.e. ar ddriliau hadau ac erydr, yn lliw brand y gwneuthurwr felly dylid defnyddio'r un lliw wrth ailbeintio. Fel arfer, gellir gweld y lliw gwreiddiol lle mae cydrannau wedi'u bolltio dros ei gilydd, neu weithiau mewn ffynonellau archifol.

## Offer Gweithiol

Weithiau efallai y bydd amgueddfa eisiau defnyddio gwrthrych i ddangos sut mae'n gweithio, neu i ddiogelu'r grefft o'i ddefnyddio. Mae'n bwysig deall yn iawn pam rydych chi'n gwneud hyn (nid am hwyl yn unig!), asesu cyflwr y gwrthrych yn onest a pheidio â'i ddefnyddio i'w eithaf fel nad oes straen gormodol. Wrth ddefnyddio ambell offeryn, fel aradr, gellir achosi crafiadau sy'n atal cyrydiad.

Cyfaddawd da yw datblygu casgliad o bethau i'w dangos yn gweithio, achos hyd yn oed gyda'r gofal mwyaf gall damweiniau ddigwydd, a bydd angen rhannau newydd ar eitemau a ddefnyddir, a hynny'n eu pellhau oddi wrth eu cyflwr gwreiddiol.

### I ddarganfod mwy:

*Cwestiynau Cyffredin am Gadwraeth Gwrthrychau Gwledig gyda George Monger* (RMN, 2022) **Rural Object Conservation FAQs | Rural Museums Network**

## Caffael a Gwaredu

Un o ganlyniadau deall eich casgliadau gwledig yn well yw'r cyfle i gaffael eitemau newydd (hanesyddol a chyfoes) neu ddefnyddio eich gwybodaeth i waredu eitemau.

Mae'r RMN yn ystorfa o wybodaeth, cysylltiadau, a dolenni i rwydweithiau eraill, ac mae ar gael i gefnogi hyn trwy ei aelodaeth. Mae hefyd wedi cynhyrchu llawer o adnoddau dan y teitl *A Distributed National Collection of Agricultural Heritage Material* (DNC) sy'n adeiladu darlun cenedlaethol o sut mae stori ffermio'n cael ei hadrodd yng nghasgliadau amgueddfeydd. Bydd yr adnoddau hyn yn helpu amgueddfeydd sydd â chasgliadau gwledig i ddeall a yw'r hyn sydd ganddynt yn arwyddocaol neu a oes digon o enghreifftiau mewn mannau eraill.

Mae adroddiadau ar gael ar beiriannau combein, tractorau, peiriannau dyrnu, cytiau bugail, erydr, casgliadau llaethdy, a chrefftau a swyddi gwledig. Yn 2019 dechreuwyd prosiect mapio parhaus o gasgliadau gwledig Prydain, i nodi lleoliad casgliadau agored i'r cyhoedd sy'n cynnwys 100 neu fwy o wrthrychau 'gwledig'.

### I ddarganfod mwy:

*Manylion Dosbarthiad Casgliadau Cenedlaethol* (RMN, 2001-cyfredol) a gynhyrchwyd fel rhan o'r prosiect eang hwn **https://www.ruralmuseums.org.uk/?page_id=1024**

*Asesu Arwyddocâd Casgliadau: Pecyn Cymorth ar gyfer Amgueddfeydd Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2023) **Pecyn cymorth asesu arwyddocâd casgliadau ar gyfer amgueddfeydd Cymru | LLYW. CYMRU**

Mae bywyd cyfoes yr un mor berthnasol i amgueddfeydd gwledig ag i rai trefol, fel y gwelir o rai o'r themâu dehongli ac arddangos a rennir. Mae casglu i gefnogi hyn yn helpu amgueddfeydd gwledig i osgoi hiraethu sentimental, ac arallgyfeirio ac agor drws ar fywyd gwledig i wahanol gynulleidfaoedd.



### I ddarganfod mwy:

*Seminar Casglu Tractorau ac Offer Amaethyddol eraill* (RMN, 2023) **https://www.ruralmuseums.org.uk/?p=1738**

*Casglu Diwylliannau Gwledig yr 20fed Ganrif* (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr, 2012) prosiect pedair blynedd i gasglu deunydd sy'n adeiladu, fesul degawd, darlun o gefn gwlad yn yr 20fed ganrif **Collecting 20th Century Rural Cultures - The MERL (reading.ac.uk)**

# Camau Pellach

Gobeithio bod y pecyn cymorth hwn wedi dechrau cynyddu eich hyder i adnabod a rhannu eich casgliad gwledig, a gofalu amdano. I gefnogi'r camau pellach y bydd angen i chi eu cymryd, dyma rwydweithiau ac adnoddau pellach er mwyn cloddio'n ddyfnach.



# Rhwydweithiau a Chyngor

Bilwgau - A Load of Old Billhooks **https://www.billhooks.co.uk**

Cymdeithas Amgueddfeydd Trafnidiaeth a Pheirianneg Prydain **https://abtem.co.uk**

Cymdeithas Hanes Amaethyddol Prydain **https://www.bahs.org.uk**

Cymdeithas Gofaint Celf Prydain **https://www.baba.org.uk**

Canolfan Astudio Crefftau **https://www.csc.uca.ac.uk**

Graces Guide **https://www.gracesguide.co.uk**

Crefftau Treftadaeth **https://heritagecrafts.org.uk**

Cymdeithas Ryngwladol Amgueddfeydd Amaethyddol **https://www.agriculturalmuseums.org**

Casgliadau MERL A-Z **https://merl.reading.ac.uk/merl-collections/search-and-browse/collections-a-z**

Cronfa Ddata Casgliadau MERL **https://merl.reading.ac.uk/merl-collections/search-and-browse/databases**

Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani **https://www.romaniarts.co.uk**

Rhwydwaith Amgueddfeydd Gwledig **https://www.ruralmuseums.org.uk**

Databas Grŵp Curaduron Hanes Cymdeithasol **https://www.shcg.org.uk/firstBASE-home**

Cymdeithas y Basgedwyr **https://basketmakersassociation.org.uk**

Cymdeithas Astudiaethau Bywyd Gwerin **https://folklifestudies.org**

Cymdeithas Hanes Offer a Gwaith **https://www.taths.org.uk**

# Adnoddau Pellach

## Dehongli ac Arddangos

*Drums Roll: dehongli peiriannau dyrnu mewn amgueddfeydd bywyd gwledig* (RMN, 2013) **Layout 1 (ruralmuseums.org.uk)**

Yr Amgueddfa Fwyd **https://foodmuseum.org.uk/about/vision**

Arddangosfa *Going Green: Sustainability Past and Present* (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr, 2007) **banners_v6.pdf (ruralmuseums.org.uk)**

Rhaglen *Our Green Stories* (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr) **Our Green Stories - The MERL (reading.ac.uk)**

*Symposiwm Tirweddau'r Dyfodol* (Amgueddfa Ceredigion, 2019) **https://ceredigionmuseum.wales/casgliadau-a-chymuned/tirweddaur-dyfodol**

*Poblogaethau Sipsiwn, Roma a Theithwyr Cymru* (Cadw/Romani Cultural and Arts Company) **https://cadw.llyw.cymru/poblogaethau-sipsiwn-roma-a-theithwyr-cymru**

*Queer Constellations: The Histories of Rural Gay Men* (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr, 2021) **Queer Constellations: The Histories of Rural Gay Men - The MERL (reading.ac.uk)**

*Forbidden Lives: LGBT stories from Wales*, Norena Shopland (Seren Books, 2017)

*Morgannwg Hoyw, Canllaw Ymchwil ar Ffynonellau ar gyfer Astudio Hanes Pobl LGBT* (Archifau Morgannwg, 2018) **https://glamarchives.gov.uk/wp-content/uploads/2018/08/Queering-Glamorgan-CYMRAEG-28Aug2018.pdf**

*Newid Safbwyntiau yng nghefn gwlad* (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr) **https://merl.reading.ac.uk/explore/online-exhibitions/changing-perspectives-in-the-countryside**



## Cefnogi Crefftau Gwledig

*Stakeholders* – prosiect basgedwyr (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr, 2014) **https://merl.reading.ac.uk/explore/online-exhibitions/stakeholders-baskets**

*Making, Using and Enjoying* (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr, 2019) prosiect celf gyfoes a chrefftau traddodiadol **https://merl.reading.ac.uk/wp-content/uploads/sites/20/2019/03/Making-Using-and-Enjoying.pdf**

Sgiliau Treftadaeth (Amgueddfa Werin Ulster) **Heritage Skills | Ulster Folk Museum** sgiliau'r gorffennol fel y cânt eu defnyddio heddiw

*Llyfryddiaeth Crefftau a Chrefftau Gwledig* (RMN, 2007) **(ruralmuseums.org.uk) Microsoft Word - Rural Crafts and Trades Collections Today, Part Three - Bibliography.doc (ruralmuseums.org.uk)**

Pecyn Cymorth - *Make Your Own Museum of the Intangible* (Amgueddfa Bywyd Gwledig Lloegr) **https://merl.reading.ac.uk/wp-content/uploads/sites/20/2019/03/IntangibleMuseumToolkit-002.pdf**

## Gofal a Chadwraeth

*Canllawiau ar gyfer gofalu am wrthrychau hanesyddol mawr diwydiannol* **https://abtemguidelinesorg.wordpress.com/**

*Sut i Lwyddo, Gofalu am Gasgliadau* (Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol, 2017) **Gofalu am Gasgliadau 2017 (aim-museums.co.uk)**

*Sut i Lwyddo, Cadwraeth Ymyrrol Sylfaenol* (Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol) **Cadwraeth ymyrrol sylfaenol 2017 (aim-museums.co.uk)**



● **LLUN:** Cynaeafu, Llandudno, yr Ail Ryfel Byd
Gwasanaeth Archifau Conwy, Trwydded Archifau Creadigol

# Cydnabyddiaethau

Datblygwyd a pharatowyd y pecyn cymorth hwn ar ran yr RMN gan Anna Bryant, Ymgynghorydd Amgueddfeydd a Threftadaeth, gyda diolch i bawb fu'n cynhyrchu adnoddau i'r RMN dros y blynyddoedd.

Diolch i'r amgueddfeydd am ddarparu astudiaethau achos o'u gwaith, ac i George Monger am y cyngor ar ofalu am gasgliadau.